**CYNGOR CYMUNED FFLUR YSTRAD**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL,**
**NOS IAU 16/06/2016 AM 7.00PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**

**1. CROESO A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL**

Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd);Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Cymunedol a Sirol Ifan Lloyd-Davies; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh, Alun Price-Jones a'r Cyngh. Doug Rowbotham; Eleri Thomas (Clerc)

**Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu** John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:**Mr B. Messer & Mrs. W. Rush.

**4. MATERION HEDDLU**

Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans fod 3 trosedd wedi cymryd lle cyn Gŵyl y Banc mis Mai ac wedi cynnwys y ddau Dŷ Tafarn ym Mhontrhydfendigaid sef y *Llew Du* a'r *Llew Coch*. Gresynwyd y ffaith bod rhai cerbydau yn teithio ar gyflymder uwch na'r hyn a ganiateir drwy'r Pentref.

**5. DATGANIAD O DDIDDORDEB:** Dim wedi eu datgan.

**6. COFNODION Y CYFARFOD O'R 19eg o Fai, 2016:** Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynigiwyd gan y Gyngh. Mair Jones ac eiliwyd gan y Gyngh. Angharad Jones.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cynllun Llywodraeth Cymru - Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned: PENDERFYNWYD** darganfod a ellid defnyddio y £500 grant i ddarparu dolen gyswllt ar gyfer Cyngor Cymuned Ystrad Fflur oddi ar safle ar y we'r Cyngor Sir Ceredigion. *Disgwylir datblygiadau.*

**7.*2* Torri Gwair o fewn y Pentref:** y mae Mr Dilwyn Benjamin yn ymwneud â'r gwaith parthed y darnau o dir sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned i'w torri megis ardal Glanyrafon, o gwmpas Neuadd Pantyfedwen, ardal yr Ysgol Feithrin ac ar y fynedfa'r pentref o gyfeiriad Tregaron. Mae aelodau'r Cyngor Cymuned wedi trafod ardaloedd i'w torri gyda Mr Benjamin.

**7.3 Enwebu Cynghorydd Cymuned ar gyfer Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Bont:** Enwebwyd y Gyngh. Angharad Jones. Hysbyswyd Pennaeth yr Ysgol o'r Penodiad.

**7.4 Llythyr oddi wrth Mr Martin Weetch** yn ystod Mis Mawrth ynghylch cyflwr dirywiol y bont-droed fetel sy'n croesi'r Afon Teifi ac wedi ei lleoli wrth gefn Dolau Bach ac a gyfeiriwyd ati fel y "Bont Werdd". Mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers iddo ef a gwirfoddolwyr beintio'r Bont Werdd (y Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu'r paent). Ers hynny, mae ei chyflwr wedi dirywio'n aruthrol a thyllau'n amlwg ar y gwaith metel wrth gefn a'r rhannau sydd wedi eu peintio; mae cyflwr y bont bellach wedi mynd tu hwnt i unrhyw ymgais i'w hailbeintio. Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned gyfeirio ei ymholiad at yr unigolion sy'n gyfrifol am y bont gyda'r bwriad o'i hatgyweirio. **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod cynt i gyfeirio'r mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd bod y Cyngor Sir yn cyflogi "Swyddog Pontydd". *Disgwylir datblygiadau gan Gyngor Sir Ceredigion.*

**7.5 Prosiect Ger-y-Gors Cyf Diweddariad: Atodiad 1** a dderbyniwyd gan Mr Bill Messer. **PENDERFYNWYD** gwahodd Aelodau'r Bwrdd Ger-y-Gors Cyf i Gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned i drafod materion o gonsyrn.

**7.6 Palmant ar gyfer prif bont y pentref:** Bu i'r Gyngh. Clare Hughes grybwyll y mater gerbron Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mr Iwan Williams mewn cyfarfod diweddar Un Llais Cymru (ULlC). Y mae'r mater wedi ei ddwyn at sylw'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC) erbyn hyn. Dywedodd Mr Rhodri Llwyd CSC yn ei ymateb fod nifer o anawsterau cyllideb a pheirianneg i'w goresgyn cyn gwireddu cynllun tebyg yn y lleoliad hwn. Nid yw cynllun o'r fath faint yn un y gall y Cyngor Sir ei ystyried ar hyn o bryd o'r refeniw sydd ar gael yn bresennol. Paratowyd dyluniadau amlinellol ar gyfer ateb posibl ychydig o flynyddoedd yn ôl, ond fe'u diystyrwyd oherwydd diffyg cyllid. Un anhawster wrth geisio denu Cyllid Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llywodraeth Cymru oedd fod y lleoliad hwn heb wedi ei gynnwys ar y rhestr o gynlluniau Llwybrau Diogel i'w gyflwyno gerbron y Gweinidog ym Medi 2014 oherwydd y galw isel am y Cynllun hwn o'i gymharu â nifer o leoliadau eraill yn Sir. **PENDERFYNWYD** cysylltu ag Elin Jones AC a Chyngor Sir Ceredigion (unwaith eto) i ofyn a fyddai modd cynnwys y prosiect o fewn Bid Cyngor Sir Ceredigion i Lywodraeth Cymru parthed Llwybrau Diogel yn y Gymuned 2017-18.

**7.7 Croesfan ar gyfer Cerddwyr ger Neuadd Pantyfedwen**: derbyniwyd ateb gan GSC yn sôn nad oedd tystiolaeth digonol ar gael i gyfiawnhau cyflwyno croesfan yma.

**7.8 Peintio'r Blychau Llythyron – Pontrhydfendigaid & Ffair Rhos:** Atgoffwyd y Swyddfa'r Post o'r cais.

**7.9 Parcio ger y Neuadd, Pontrhydfendigaid:** Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion i'r llythyr a dderbyniwyd gan Carys Hughes Jones ac ail-gyfeiriwyd at sylw'r Cyngor Sir. Mae'r cam nesaf o newidiadau i gyfyngiadau parcio yng Ngheredigion wedi ei drefnu eisoes, ar gyfer 2017 ar y cynharaf, a bydd hyn yn ddibynnol ar adnoddau. Ar hyn o bryd aneglur yw'r ffynhonnell ariannol. Bydd y cais am gyfyngiadau parcio yn y lleoliad hwn, sydd wedi ei gyflwyno o'r blaen, yn derbyn ystyriaeth yn ystod y paratoadau ar gyfer y cam nesaf o newidiadau gan gofio bod y Cyngor Cymuned wedi darparu gwybodaeth yn y gorffennol sy'n awgrymu y gall trigolion lleol fynegi gwrthwynebiad i'r cynnig (ar sail gwrthwynebiad yn y gorffennol). Er bod trefniadau ger y Neuadd heb fod yn ddelfrydol y mae CSC o'r farn eu bod yn ddigonol ar gyfer gyrwyr gofalus gan gynnwys ymddygiad parcio. Does dim cofnod o wrthdrawiadau yn y lleoliad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf gan gynnwys anafiadau personol.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Un Llais Cymru Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod Ardal** Dydd Mercher 22 Mehefin, 2016 ym Mhenmorfa, Aberaeron. Wedi'u cynnwys: Cofnodion Cyfarfod 27ain Mai 2016 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Dydd Mercher 24ain Mehefin, 2015.

**8.2 Cais am gamfeydd i'w lleoli ar Lwybrau** ble mae'r gatiau wedi eu clymu (a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Nel Jones yn ystod y CCB). Derbyniwyd Ymateb gan Mr Eifion Jones, Swyddog Hawliau Tramwy CSC yn datgan na leolir camfeydd fel arfer gerllaw gatiau, sydd wedi eu clymu. Agor y gatiau yw'r drefn arferol er mwyn ceisio datrys y mater.

Dywedodd Mr Jones y byddai'n cyfeirio'r mater at sylw'r Swyddog Ardal ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned maes o law.

**8.3 Cofrestrfa Tir: Tir y tu ôl 1-16 Maes y Dderwen ac yn ymestyn wrth gefn Ystafell Wen. (O'r B4343 - Glan-yr-Afon).** Cysylltwyd â'r Gofrestrfa Tir i ofyn os yw'r tir wedi ei gofrestru. Yn yr ymateb, dywedwyd bod y tir yn ddigofrestredig. Mae'n angenrheidiol yn awr i gyflwyno cais ffurfiol trwy gyfrwng FR1. Rhaid rhestru holl weithredoedd a dogfennau ym meddiant y Cyngor Cymuned ar y Ffurflen DL x2. Ffi £30.00. **PENDERFYNWYD** dechrau'r broses.

**8.4 Gohebiaeth Eraill: Er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Cyflog y Clerc Mehefin** 2016 £157.10; Cyllid a Thollau EM £36.56.

**9.2 Anfoneb - Un Llais Cymru -** Hyfforddiant Sgiliau Cadeirio yn y Drenewydd £35. Dywedodd y Gyng Clare Hughes na fu'n bosibl iddi fynychu'r Sesiwn Hyfforddi.

**9.3 Archwiliad Ariannol Blynyddol 2015-16 Cyngor Cymuned Ystrad Fflur** wedi ei gwblhau gan Mrs Enid Hughes ac ar fin ei gyflwyno gerbron *Grant Thornton* yr Archwilwyr Allanol.
Mae'r Adroddiad Ariannol a gariwyd allan gan Mrs Hughes wedi amlygu'r pwyntiau canlynol:
**1. Mae'n amlwg wrth ystyried Pro-forma *Grant Thornton*** y disgwylir 2 adolygiad cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, dim ond un yr ymddangosir ei ymgymryd a hynny ar adeg pennu'r Praesept, felly cynghorir bod trefniadau mew llaw i ymwneud ag adolygiad ariannol ddwywaith y flwyddyn i gydymffurfio â gofynion *Grant Thornton* sef bod 2 sampl o gofnodion cyfreithiol ar gael ac yn dyst bod adolygiad o'r gyllideb wedi digwydd.
**2. Taliadau'n cael eu gwneud heb ddogfennau priodol.** Nid dyma'r tro cyntaf y tynnwyd sylw at y ffaith. At ddibenion cyfrifyddu priodol, mae'n hanfodol bod ceisiadau am ad-daliad ar gyfer pryniant a wnaed ar ran y Cyngor gan Gynghorwyr unigol, yn cael eu cyflwyno gyda'r anfonebau priodol, gan ddangos enw'r cyflenwr, dyddiad prynu, eitemau a brynwyd yn ogystal ag enw'r hawlydd.
**3. 12 mis y ffôn / llinell rhent / band eang wedi ei hawlio yn anfwriadol gan y Clerc** (Ebrill 2015 - Mawrth 2016) yn hytrach na 9 mis oherwydd newid yn y Pecyn BT, a oedd yn golygu bod 3 mis wedi ei gynnwys o fewn y flwyddyn flaenorol . Nid yw'r trefniant cynt o dderbyn taliad 3 mis ymlaen llaw yn gymwys mwyach o dan y drefn newydd (sy'n golygu na dderbyniodd y Clerc taliad ar gyfer y ffôn/ rhyngrwyd yn ystod y 3 mis cyntaf ei chyflogaeth sef 1 Ebrill 2004-30 Mehefin 2004). Ad-dalwyd £8.44 TAW i Gyllid a Thollau EM a £42.21 i'r Cyngor Cymuned (2015-16).

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**10.2 Cais Cynllunio A160123. Y Bwriad:** Creu Gwell mynediad a threfniadau pharcio 1 a 3 Llysteg, Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid. Cynhaliwyd Cyfarfod Safle a drefnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar ddydd Gwener 22 Ebrill, 2016 am 10am. Trefnwyd ail gyfarfod safle. Roedd Aelodau o'r farn y gwrthodwyd y Cais Cynllunio gan y Cyngor Sir.

**10.3 Cais Cynllunio A160488: Cais:** Estyniad arfaethedig i annedd. Lleoliad Teifiside, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig.
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned:** Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Cwrs ar Sut i Ddefnyddio'r Diffibrilwyr: PENDERFYNWYD** gosod manylion parthed amser a dyddiad y cwrs yn y Cambrian News. Gorffennaf 5, 2016 am 7.30pm yn Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigiad dan gyfarwyddyd Mr Bill Morgan.

**11.2 Giat y Parc:** angen trwsio'r giat.

**11.3 Mae angen torri glaswellt o flaen 1-6 Maesydderwen. PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Landlord sef *Tai Ceredigion*.

**11.4 Mae car wedi ei barcio'n barhaol ar y Glas. PENDERFYNWYD** anfon llythyr at y Perchnogion i ofyn iddynt i symud y cerbyd.

**11.5 Taflenni sy'n ymwneud â Baw Cŵn:** meddylid ei fod yn angenrheidiol i ddiweddaru taflenni blaenorol a ddosbarthwyd. Trafodwyd Chwistrell, y gellir defnyddio i drin y broblem. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o geisio gwasanaeth Warden Cŵn**.**

**11.6 Dywedodd y Cynghorydd John Jones fod Bysiau Evans, Tregaron heb fod wedi llwyddo i ennill** y Contract o gario plant ysgol o Bontrhydygroes i Dregaron. Cwmni Llogi Bysiau Penrhyncoch a fu'n llwyddiannus gan fod y bysus yn fwy diweddar ac yn cynnig darpariaeth Camerau TCC. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Shan Witts, Cyngor Sir Ceredigion yn gwrthwynebu'r datblygiad ac i fynegi siom y Cyngor Cymuned mewn perthynas â phenderfyniad y Cyngor Sir; yn ystod tywydd garw pan fydd yr ysgol yn cau cyfrifwyd y byddai'n cymryd 45 munud ar gyfer bysus o Benrhyncoch i gyrraedd Tregaron tra bod Byses Evans wedi eu lleoli yno'n barod.

**11.7 Dywedodd y Cyngh. John Jones ei fod wedi gorfod gwrthdroi 4 gwaith yn ddiweddar yng nghyffiniau Stryd Teifi,** Ponthrydfendigiaid. Cafodd trigolion y cyfle i geisio am System Unffordd ynghynt yn y flwyddyn, ond roedd mwyafrif o'r trigolion a fynegwyd barn heb fod o blaid y datblygiad hwn.

**11.8 Datganwyd llongyfarchion i'r Cynghorwyr Ifan Lloyd-Davies** a'r Cyngh. Doug Rowbotham ar eu llwyddiant mewn perthynas â'r Rali CFfI. Llongyfarchwyd Lledrod ar ennill y Gystadleuaeth Tablo.

**11.9 Adroddwyd y gyrrwyd beic modur o fewn ardal yn y** Pentref ble chwaraeir plant. Cafodd y mater ei adrodd at sylw'r Heddlu.

**11.10 Dywedodd y Cynghorydd Alun Price-Jones** y byddai'n arddangos baneri y tu allan i'w eiddo ar gyfer y Carnifal.

**11.11 Daeth y cwrbyn isel y tu allan i Siop** o dan drafodaeth.

**11.12 PENDERFYNWYD gofyn am Arwydd Rhybudd** cyn cyrraedd yr Arwydd 30mya ar y fynedfa o gyfeiriad Tregaron i'r Pentref.

**11.13 Derbyniwyd dau amcanbris** mewn perthynas â'r Twnnel a leolwyd o Fewn y Parc.

**11.14 Carnifal Bont 2016:** Dydd Sadwrn 9fed Gorffennaf, 2016 am 3pm.

**11.15 Digwyddiad ar gyfer y Gymuned** Dydd Sadwrn 9fed Gorffennaf 2016 am 4pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:35pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF**
**Dydd Iau 21ain o Orffennaf, 2016 am 7.00pm**

**=============================================== (llofnod/dyddiad)**